

## Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr 16 Mawrth 2022

### Nodiadau'r cyfarfod

#### Yn bresennol:

Cyng Paul Harris (Aelod o'r Bwrdd a'r Cadeirydd)

Y Cyngorydd Di Clement (Aelod o'r Bwrdd a Dirprwy Gadeirydd)

Dr Rachel Heath-Davies (Aelod o'r Bwrdd ac yn cymryd nodiadau)

Tegryn Jones (Prif Weithredwr)

#### 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

#### 2. Datgan buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

#### 3. Nodiadau cyfarfod 21 Hydref 2021

Cadarnhawyd nodiadau'r panel a gynhaliwyd ar 21 Hydref drwy e-bost cyn y cyfarfod.

#### 4. Adolygiad o adroddiad y Prif Weithredwr ar berfformiad yn erbyn y targedau a'r amcanion a bennwyd ar gyfer y cyfnod adrodd.

Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer y panel hwn cyn y cyfarfod a chyflwynwyd yr adroddiad fesul eitem.

4.1. Adroddwyd ar y cynnydd a ganlyn yn erbyn yr amcan **rheolaeth ariannol** a'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn COVID:

4.1.1. Eglurodd y Prif Weithredwr bod y darlun ariannol yn ffafriol ac yn llawer mwy cadarnhaol na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r pandemig covid. Roedd yn wir i ddweud bod yr incwm a gynhyrchwyd yn uwch na'r hyn a ragwelwyd, oherwydd bod yn geidwadol o ystyried y sefyllfa, ac oherwydd hynny roedd y sefyllfa ariannol yn edrych yn llawer mwy cadarnhaol na'r disgwyl. Nododd y Cadeirydd ei gefnogaeth i'r ffordd yr oedd y Prif Weithredwr wedi rheoli'r cyllid.

4.1.2. Tra bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn diweddu'r flwyddyn ariannol mewn sefyllfa gadarnhaol, roedd y Prif Weithredwr yn bwyllog am y dyfodol, gan ddilyn cyngor CLILC i gynllunio ar sail cynnydd o 4% mewn costau. Holwyd a ddylid defnyddio 4% ar gyfer costau staff a'r costau heblaw am staff, a chafwyd trafodaeth ar sut y byddai hyn yn chwyddo'r ffigurau, a chytunodd y panel y byddai cynllunio ar gyfer senarios amrywiol yn ddefnyddiol.

4.1.3. Holodd y Cadeirydd am y cynlluniau i lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol a hefyd am sicrwydd cyllid dros gyfnod o dair blynedd neu am dymor y Llywodraeth. Eglurodd y Prif Weithredwr bod trafodaethau ar y gweill ynghylch modelau o setliad ariannol dros dymor hwy, ond nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yn hyn.

4.1.4. Eglurodd y Prif Weithredwr hefyd bod y dyraniad rheolaidd yn un o nifer o ffynonellau incwm/cyllid, gyda grantiau, nawdd ac incwm yr

Ymddiriedolaeth ar gael, yn ogystal â'r incwm a gynhyrchir gan y Parc ei hun. Hefyd amlinellodd y cyfleoedd posibl i sicrhau ffynonellau eraill o gyllid o fewn Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, megis y potensial i gael cyllid o fannau eraill yn yr Adran Newid Hinsawdd.

- 4.1.5. Holwyd cwestiwn ynghylch cynlluniau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel yr argymhellwyd yn yr adroddiadau archwilio. Eglurodd y Prif Weithredwr bod rhai heriau strwythurol yn y system sy'n rhwystro hyn ond barnai bod cyfleoedd ar y gorwel drwy'r ailstrwythuro megis y gallai buddsoddiad datgarboneiddio fod yn sylweddol a hefyd bydd rhai swyddi newydd yn dod â syniadau o'r newydd.

#### 4.2. Yr ail amcan a drafodwyd oedd camau ymlaen ar gytuno ar **strategaeth a strwythur newydd**.

- 4.2.1. Eglurodd y Prif Weithredwr bod yr ymgynghori â'r staff fod cychwyn ar y 4ydd o Ebrill am 28 diwrnod, ac yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, byddai'r penderfyniad yn cael ei drafod mewn pwyllgor arbennig o Adnoddau Dynol yn ystod mis Mai. Cydnabuwyd bod yr amserlen yn dynn, ond oherwydd rhywfaint o oedi, roedd hyn hefyd bellach wedi gwella'r canlyniadau posibl, oherwydd efallai na fyddai angen unrhyw ddiswyddiadau gorfodol.
- 4.2.2. Cafwyd trafodaeth am y newid mewn gêr a syniadau newydd fyddai'n dod yn sgîl penodiadau strategol newydd. Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod yn awyddus i'r recriwtiaid newydd hyn i swyddi uwch gymryd y fantell ac arwain newid cadarnhaol.
- 4.2.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ymgysylltu wedi'i gynllunio â phob un o'r Aelodau, a chytunodd y Prif Weithredwr i rannu'r ymgynghoriad pan gaiff ei gyhoeddi ar 4 Ebrill, a chytunodd y panel y dylid trefnu sesiwn frifio i'r Aelodau.

#### 4.3. Roedd y trydydd amcan a drafodwyd yn ymwneud â **bioamrywiaeth a newid hinsawdd** ac roedd y camau ymlaen a adroddwyd fel a ganlyn:

- 4.3.1. Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod nad oedd wedi gwneud cymaint o gynnydd ar y parc cenedlaethol **morol** ag y byddai wedi'i ddymuno ond rhoddodd sicrwydd i'r Cadeirydd y byddai'n bwrw ymlaen â hyn dros y flwyddyn nesaf. Eglurodd y bu newidiadau mewn personél o fewn Llywodraeth Cymru oedd wedi rhwystro'r cyfleoedd i godi'r materion hyn yn fanwl hyd yn hyn, ond roedd yn obeithiol y byddai hyn yn bosibl cyn hir.
- 4.3.2. Trafododd y panel y cynnydd ar **ddatgarboneiddio** a barnai'r Prif Weithredwr bod hwn yn faes yr oedd y Parc yn ei arwain a bod APCAP wedi dod yn bwynt cyfeirio i eraill. Gallai hyn agor meysydd a chyfleoedd eraill i'r Parc yn y dyfodol.
- 4.3.3. O ran **bioamrywiaeth**, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r panel ar y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru fod yn cyflwyno Cynllun Amaeth-Amgylcheddol tebyg i'r un sydd wedi'i gyflwyno yn Lloegr. Os felly, byddai hyn yn gyfle gwych i ehangu ein rhwydwaith a chyrhaeddiad ymhlith y gymuned amaethyddol o fewn ac ar gyrion ffiniau'r Parc. Ymatebodd DC drwy ddweud ei bod o'r farn bod gennym brofiad yn y maes hwn eisoes gan ein bod eisoes wedi estyn allan at ffermwyr ac y byddai cyfleoedd pellach i adeiladu ar y cyfnewidiadau a'r rhwydweithiau cychwynnol hynny yn y dyfodol.

4.3.4. Holodd RHD am y **prosiectau** yr amlygwyd eu bod mewn perygl mewn adroddiadau cynnydd yn ddiweddar ac a oedd yn aml yn destun cyllid cylchol. Ychwanegodd y Cadeirydd hefyd ei fod yn meddwl y cytunwyd y byddai Pwyth Mewn Pryd yn cael ei ystyried yn weithgaredd prif ffrwd ac na fyddai'n cael ei drin fel prosiect mwyach. Byddai rheoli rhywogaethau ymledol yn gyfrifoldeb tymor hir yn hytrach na thymor byr i'r Parc. Cytunodd y Prif Weithredwr mai dyma oedd y bwriad ac ychwanegodd hefyd bod prosiectau eraill sy'n dibynnu ar arian grant ar hyn o bryd megis Dewch i Gerdded yr oedd angen eu hintegreiddio i gylch gwaith prif ffrwd y Parc o dan iechyd a lles. Gorffennodd y Prif Weithredwr drwy ymrwymo i drosglwyddo'r prosiectau hyn i weithgareddau prif ffrwd fel rhan o'r ailstrwythuro.

4.4. **Iechyd a Lles** staff oedd yr amcan nesaf i'w drafod gan y panel gyda'r prif bwyntiau a ganlyn yn cael eu gwneud:

4.4.1. Dywedodd y Prif Weithredwr bod iechyd a lles y staff bob amser yn flaenoriaeth, ac yn ystod ac ers COVID 19 y byddai iechyd a lles y staff hyd yn oed yn fwy o flaenoriaeth wrth symud ymlaen. Barnai bod uchafbwyntiau ac isafbwyntiau wedi bod ym morâl y staff drwy gydol y pandemig ac mai anodd oedd dirnad yr union sefyllfa yn enwedig pan oedd cymaint o staff yn gweithio gartref, ac mewn ambell i achos, nid oedd wedi gweld rhai yn bersonol ers peth amser bellach, felly roedd yn anoddach weithiau i fesur y sefyllfa.

4.5. Trafodwyd y cynnydd yn erbyn yr amcan ar **ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol** fel a ganlyn:

4.5.1. Eglurodd y Prif Weithredwr bod rhwydweithio a chysylltu wedi bod yn anoddach mewn gwirionedd gan fod y mwyafrif o gyfarfodydd yn dal i fod ar-lein ac nad oedd hyn yr un peth â manteisio ar gyfleoedd wyneb yn wyneb â phobl o gwmpas ymylon cyfarfodydd.

4.5.2. Cafwyd trafodaeth ar yr heriau sy'n wynebu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar hyn o bryd a'r modd y gallai hynny fod yn effeithio ar eu gallu cyffredinol i weithio ar draws y tri parc cenedlaethol, yn ogystal â'r risg gyffredinol i enw da y parciau yn y tymor byr, ond barnwyd y byddai hyn yn dod yn iawn eto yn y tymor hwy.

4.5.3. Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod yn croesawu cynnal Tirweddau Cymru a'i fod yn falch bod APCAP yn cefnogi sawl AHNE ac yn wir wedi ymdrin â rhai gweithgareddau allweddol. Dywedodd y Cadeirydd bod cyfraniad y Parc yn bwysig a chroesawyd hynny.

4.6. Ac yn olaf, bu'r panel yn trafod y datblygiadau gyda Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol, a godwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr. Bwriad y fenter oedd hyrwyddo llwybr yr arfordir fel cyrchfan i ddathlu pen-blwydd y llwybr a groesawyd gan bob aelod o'r panel, a gofynnwyd i'r Prif Weithredwr gyhoeddi hyn i bob Aelod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

4.7. Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr **adolygu'r amcanion** ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf a dosbarthu'r amcanion hynny i aelodau'r panel i gael eu sylwadau. Gofynnodd RHD i'r amcanion diwygiedig gynnwys y gwersi a ddysgwyd o Covid ac addasu'r ystâd ffisegol, gan gynnwys yr Ystafell Werdd (Atodiad 1).

## Atodiad 1

### Amcanion y Prif Weithredwr ar gyfer 2022-23

- i. Sicrhau bod adnoddau'r Awdurdod yn cael eu rheoli'n effeithiol gan roi ystyriaeth i gynllunio ariannol tymor canolig i hir ac ystyried heriau chwyddiant a chostau uwch, gan gynnwys yr Aelodau yn y broses, codi uchelgais staff, adeiladu effeithlonrwydd a chydnerthedd drwy ffyrdd newydd o weithio a chwilio am gyfleoedd ac arloesedd drwy ffynonellau newydd o gyllid;
- ii. Cwblhau'r adolygiad corfforaethol, gan ganolbwyntio ar newidiadau i strwythur yr Awdurdod a chynnal Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, gyda'r nod o sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni;
- iii. Adeiladu ar y gwaith presennol o ddatblygu a gweithredu mentrau ar dir ac ar fôr i alluogi'r Awdurdod i gynyddu ei effaith wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd ac adfer byd natur;
- iv. Cefnogi iechyd a lles y staff a dysgu'r gwersi o'r newidiadau a roddwyd ar waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf sy'n arwain at wella boddhad y staff ac sy'n ceisio cyflawni Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru;
- v. Gweithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i barhau i godi proffil yr Awdurdod a dylanwadu ar bolisïau ar draws y meysydd blaenoriaeth a amlinellir ym mlaenoriaethau'r Awdurdod; a
- vi. Gan ragweld o leiaf 4 aelod newydd ar yr APC eleni, sicrhau eu bod yn cael y cymorth drwy'r drefn effeithiol o sefydlu i'r rôl.